


FRANCIS, BENJAMIN (1734 - 1799), emynydd, gweinidog gyda'r Bedyddwyr



Enw: Benjamin Francis
Dyddiad geni: 1734
Dyddiad marw: 1799
Rhiant: Mary Francis (née Evans)
Rhiant: Enoch Francis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: emynydd, gweinidog gyda'r Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Barddoniaeth
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd ym Mhen-y-gelli ger Castellnewydd Emlyn, plentyn ieuengaf **Enoch Francis**. Gan i'w rieni farw pan nad oedd ef ond 6 oed, magwyd ef yn Abertawe, ac yno (1749) y bedyddiwyd ef. Aeth yn 1753 i academi'r Bedyddwyr ym Mryste, ac ar ddiwedd 1755 gwahoddwyd ef i fod yn weinidog (cynorthwyol) yn Broadmead. Symudodd yn 1756 i Chipping Sodbury, ac oddi yno (1759) i Horsley, lle y bu farw 14 Rhagfyr 1799.

Er bwrw cymaint o'i oes yn Lloegr (a phrydyddu hefyd yn Saesneg), glynodd Benjamin Francis wrth ei Gymraeg. Byddai'n mynychu'r gymanfa, a phregethodd bedair gwaith ar ddeg iddi. Cyhoeddodd ddau gasgliad (**1774** , **1786**) o emynau Cymraeg, ill dau'n dwyn y teitl *Aleliwia*. Efallai mai ar y mesur salm y canai'n fwyaf effeithiol; y gwyn gyffredin yw bod ei emynau'n orgynganeddol, eto delir hyd heddiw i ganu amryw ohonynt. Enwir marwnadau a cherddi Cymraeg eraill o'i waith gan **Charles Ashton**, 406.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (Caerfyrddin 1778), 119, 383

A History of the Baptist Association in Wales (1795)

Evan Isaac, *Prif Emynwyr Cymru* (1925), 1925

J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid* (1945), 1945

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Benjamin Francis

Delweddau

Thomas Trotter, The Revd. Benjamin Francis, A.M Pastor of the Baptist Church at Horsley in Gloucester Shire

Gweithiau

Benjamin Francis, *Marwnad ar farwolaeth y Parchedig John Thomas, gynt o Faes-y-Doroglwyd, ond yn ddiweddar o Ben-yr-Heol, gweinidog eglwys Maes-y-Berllan, yn Sir Frecheiniog; yr hwn a hunodd ar y 5ed o Dachwedd 1786, 67 oed. Bu bymtheng mlynedd yn gyd-fugail Âc'r Parchedig Timothy Thomas, yn eglwys Aberduar, &c., a bu yn fugail ar eglwys Maes-y-Berllan wyth mlynedd ar hugain. Bu farw ei wraig ar ddydd ei gladdedigaeth, sef y 9ed o Dachwedd, 71 oed. Ac fe hunodd y Parchedig William Williams, ei gyd-fugail, ar y Sabbath canlynol, sef y 12ed o Dachwedd, o gylch 72 oed (Caerfyrddin 1787)*

Benjamin Francis, *Can am fedydd: a achlysurwyd gan draethawd y Parchedig B. Evans, dros daenelliad babanod*(Caerfyrddin 1790?)

Mathew Williams, Benjamin Francis, *De Ultimo Judicio: neu, gan am y Farn Ddiweddfaf. Yn bedair rhan. Wedi ei gyfansoddi a'i gyddmaru a gwaith Saesonaeg Mr. B. Francis*(Caerfyrddin 1788?)

Benjamin Francis, Enoch Francis, Daniel Francis, *CÂen sylweddol o waith yr enwog Mr Benjamin Francis, At ba un y chwanebwyd cÂen arall o waith un o'i frodyr, ynghyd Âç thri phennill, gan y tri brawd ar eu hymadawiad Âç'i gilydd ym Merthyr Tudful* (Caerfyrddin 18--)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 62966596

Wikidata: Q13125985

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). FRANCIS, BENJAMIN (1734 - 1799), emynydd, gweinidog gyda'r Bedyddwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-FRAN-BEN-1734>

Caerfyrddin

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwydian
Llywodraeth Cymru
Developed by
Welsh Government